

# Crynodeb Gwirio Ansawdd Practis Deintyddol Heol Dŵr Dyddiad y gweithgarwch: 5 Hydref 2021

Dyddiad cyhoeddi: 9 Tachwedd 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Heol Dŵr fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o driniaethau deintyddol y GIG a thriniaethau deintyddol preifat ac mae ganddo ddau ddeintydd a dau hyleneidd deintyddol. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a gynigir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig a'r rheolwr cydymffurfio ar 5 Hydref 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?
- Sut rydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

- Roedd y dogfennau allweddol y gwnaethom eu hadolygu yn cynnwys yr asesiadau risg / archwiliadau amgylcheddol diweddaraf

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig fanylion y newidiadau a wnaed i amgylchedd y practis er mwyn ei alluogi i weld cleifion yn ystod pandemig COVID-19. Dywedwyd wrthym fod y practis yn gweithredu polisi cloi drysau gan sicrhau bod mynd a dod drwy'r practis yn cael ei leihau cymaint â phosibl. Gofynnwyd i'r cleifion ddod i'r practis ar eu pen eu hunain os yn bosibl ac i wisgo gorchudd wyneb. Dywedwyd wrthym fod hysbysiadau yn Gymraeg a Saesneg ar y drws ac ym mhob rhan o'r practis a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion am y gofynion cynyddol o ganlyniad i COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod sgriniau plastig clir wedi cael eu gosod wrth ddesg y dderbynfa er mwyn diogelu'r staff. Roedd sticeri wedi'u gosod mewn mannau amlwg ar y llawr mewn ardaloedd cymunedol i atgoffa'r cleifion i gadw pellter cymdeithasol. Nid oedd teganau na chylchgronau yn yr ardal aros mwyach ac roedd llai o gadeiriau ar gael. Rhoddodd y rheolwr cofrestredig wybod i ni fod y cleifion yn cael eu hebrwng drwy'r practis pan roeddent yn dod a bod gan y ddwy ddeintyddfa ar y llawr gwaelod ddrysau yn arwain yn uniongyrchol i'r awyr agored, a oedd yn osgoi'r angen i adael drwy'r ystafell aros. Roedd posteri ar wal y ddeintyddfa wedi'u gorchuddio â sgriniau gwydr er mwyn gallu eu glanhau yn rheolaidd.

Gwnaethom ofyn pa fesurau oedd ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cleifion am weithdrefnau diogelwch COVID-19. Dywedwyd wrthym fod y practis yn ffonio cleifion cyn eu hapwyntiad er mwyn esbonio gweithdrefnau diogelwch COVID-19 a'u sgrinio am symptomau COVID-19. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y wybodaeth hon hefyd ar gael ar wefan y practis. Anfonwyd negeseuon testun at y cleifion cyn eu hapwyntiadau i'w hatgoffa o beth i'w wneud wrth ddod i'r practis ac roedd gwybodaeth wedi'i hargraffu ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i'r rhai oedd yn gofyn amdani.

Gwnaethom ofyn am y cyfleusterau i sicrhau bod y practis yn hygyrch i bobl ag anableddau. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod gan y practis ddwy ddeintyddfa ar y llawr gwaelod a oedd yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Roedd gan y practis hefyd

---

doiled i bobl anabl a dolen glywed<sup>1</sup> i bobl â nam ar eu clyw. Roedd taflenni a gwybodaeth i'r cleifion ar gael mewn amrywiaeth o ieithoedd ac roedd gwasanaeth dehongli dros y ffôn ar gael i'r practis drwy'r bwrdd iechyd lleol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith a oedd yn cael ei adolygu'n flynyddol.

Gwelsom dystiolaeth o bolisi glanhau'r practis ac amserlenni glanhau deintyddfeydd a oedd yn ystyried yr angen i gynyddu'r mesurau ar gyfer COVID-19. Roedd asesiad risg cyfredol ar gyfer y practis hefyd. Roedd y dogfennau hyn yn rhestru'r risgiau, y mesurau rheoli a'r rhagofalon amrywiol a oedd ar waith i liniaru'r risgiau dan sylw.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Copi o archwiliad dihalogi diweddaraf WHTM 01-05 a'r cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella.
- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol i COVID-19
- Yr asesiadau risg/archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf
- Amserlenni glanhau.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod prosesau ar waith er mwyn amddiffyn y cleifion a'r staff pan fydd gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol (AGP)<sup>2</sup> yn digwydd. Roedd y broses hon yn dilyn y Weithdrefn Weithredu Safonol ddiweddaraf a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru. Roedd y staff yn cael eu hysbysu'n rheolaidd am y Weithdrefn Weithredu Safonol a'r canllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Prif Swyddog Deintyddol. Cyflawnwyd hyn drwy ddefnyddio cymhwysiad cydymffurfio wedi'i osod ar ffonau symudol y staff, a dogfennau wedi'u hargraffu yn ystod dau ddiwrnod penodol o hyfforddiant i'r staff.

Yn ogystal, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod unedau hidlo aer ac unedau puro

---

<sup>1</sup> Mae dolen glywed (a elwir weithiau yn ddolen sain) yn fath arbennig o system sain i'w defnyddio gan bobl â chymhorthion clyw.

<sup>2</sup> Gweithdrefn feddygol yw gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol (AGP), a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r llwybr anadlol wrth drin unigolyn yr amheuir neu y gwyddys ei fod yn dioddef o haint a gaiff ei drosglwyddo, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy'r awyr neu drwy ddefnyddiau.

---

aer wedi'u gosod yn y deintyddfeydd, a oedd yn galluogi'r practis i weithredu'n unol â'r isafswm cyfnod segur<sup>3</sup> o 10 munud yn dilyn gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol (AGP). Hefyd, roedd un ddeintyddfa wedi cael ei hadnewyddu'n llwyr yn ddiweddar. Roedd cyfarpar diangen wedi cael ei dynnu o'r ardaloedd clinigol ac roedd sgriniau cyfrifiaduron yn cael eu glanhau yn unol â'r canllawiau â glanedydd addas ac roedd bysellfyrddau y gellid eu sychu. Cawsom dystiolaeth o bolisi COVID-19 cyfredol ac asesiadau risg a oedd yn unol â chanllawiau cyfredol.

Gwnaethom gadarnhau â'r rheolwr cofrestredig y broses sydd ar waith er mwyn gwneud yn siŵr nad oes gan y cleifion sy'n mynychu'r practis symptomau COVID-19. Yn ogystal â chael galwad ffôn cyn eu hapwyntiad ac ateb cyfres o gwestiynau sgrinio, byddai cleifion wedyn yn cael eu hailsgrinio wrth gyrraedd y practis a byddai eu tymheredd yn cael ei gymryd. Pe bai claf yn dod i'r practis ac yn arddangos symptomau COVID-19, cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai'r staff yn gofyn i'r claf aildrefnu ei apwyntiad a byddent yn rhoi cyngor pe bai'r claf mewn poen.

Gwelsom daenlen hyfforddiant gorfodol a oedd yn darparu tystiolaeth bod y mwyafrif o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf o ran atal a rheoli heintiau a defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE), gan gynnwys y dull cywir o wisgo a diosg PPE<sup>4</sup>. Cyflawnwyd hyn drwy ddull dysgu cyfunol gan ddefnyddio hyfforddiant ar-lein a thrwy sesiynau ymarferol mewnol. Dywedwyd wrthym fod negeseuon atgoffa gweledol megis posteri i atgoffa'r staff ynghylch sut i ddefnyddio PPE yn gywir hefyd wedi'u harddangos mewn manau amlwg yn yr ardaloedd gwisgo a diosg. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y staff yn gwisgo'r PPE cywir, gan gynnwys masgiau FFP3<sup>5</sup>, gynau, ffedogau a feisorau wrth drin cleifion.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai llen rwber (rubber dam)<sup>6</sup> yn cael ei defnyddio lle y bo'n bosibl i leihau'r risg o ronynnau yn yr awyr (aerosolau)<sup>7</sup> ynghyd â dyfais sugno cyfaint uchel<sup>8</sup> yn ystod gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol (AGP). At hynny, dywedwyd wrthym fod hysbysiadau ar ddrysau'r deintyddfeydd lle y cynhaliwyd gweithdrefnau cynhyrchu aerosol er mwyn atgoffa'r staff i beidio â mynd i mewn tan y byddai'r cyfnod segur ar ben.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym na fu unrhyw oedi cyn cael PPE. Roedd gan y practis system ar waith ar gyfer sicrhau nad oedd cyflenwadau o PPE yn mynd yn rhy isel. Yn ogystal

---

<sup>3</sup> Cyfnod segur yw'r amser tawel yn y ddeintyddfa ar ôl gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol (AGP) sy'n galluogi unrhyw ddefnydd i setlo cyn unrhyw waith glanhau a diheintio.

<sup>4</sup> Gwisgo - rhoi cyfarpar diogelu personol (PPE) ymlaen; Diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol (PPE) i ffwrdd

<sup>5</sup> Caiff yr angen i wisgo masg FFP3 (masg untro ar gyfer y trwyn a'r geg er mwyn anadlu'n ddiogel) ei nodi drwy asesiad risg clinigol. Defnyddir y masg i ddiogelu rhag pathogenau a ledaenir drwy anadlu. I ddefnyddio'r masgiau hyn, rhaid i'r aelodau perthnasol o staff gael prawf ffitio wyneb er mwyn sicrhau y gall y masg ffitio'r wyneb yn iawn a'i fod yn gweithio mor effeithiol ag sy'n ofynnol.

<sup>6</sup> Dalen denau o latecs neu ddeunydd nad yw'n cynnwys latecs yw llen rwber neu len ddeintyddol. Caiff ei defnyddio i wahanu'r dannedd o weddill y geg yn ystod triniaeth ddeintyddol er mwyn helpu i atgyweirio dannedd yn llwyddiannus.

<sup>7</sup> Gall aerosolau deintyddol gludo feirysau a throsglwyddo heintiau.

<sup>8</sup> Dyfais sugno sy'n tynnu llawer o aer dros gyfnod o amser yw Dyfais Gwagio Cyfaint Uchel (HVE).

---

â'r cyflenwadau a archebir yn uniongyrchol gan gwmni cyflenwi, roedd y practis hefyd wedi cael PPE gan y bwrdd iechyd lleol.

Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau rheoli heintiau a gwblhawyd, rhestrau gwirio dyddiol ar gyfer cyfarpar dihalogi a sterileiddio ac amserlenni glanhau ar gyfer y pythefnos blaenorol.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Fel rhan o'r broses gwirio ansawdd, rhoddodd y practis deintyddol ei archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05<sup>9</sup> diweddaraf a gwblhawyd ym mis Ionawr 2021 i AGIC. Tynnodd yr archwiliad hwn sylw at faterion difrifol yn ymwneud â sêl annigonol o amgylch y llawr mewn ardaloedd clinigol. Nid oedd camau unioni wedi cael eu cymryd i wella'r mater hwn. Roedd sêl annigonol a lloriau wedi'u difrodi yn golygu na ellid glanhau'r llawr yn ddigonol mewn ardaloedd clinigol, gan beri risg difrifol o haint i'r cleifion a'r staff.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y lloriau yn cael eu hatgyweirio neu eu newid er mwyn darparu seliau digonol ym mhob ardal glinigol i sicrhau y gellir glanhau'n briodol i atal heintiau.

O ganlyniad i'r pryder hwn a'r risgiau cysylltiedig i'r cleifion a'r staff, anfonwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio at y darparwr cofrestredig i ofyn am sicrwydd mewn perthynas â'r camau sydd wedi, neu a fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryder y tynnwyd sylw ato ac i sicrhau y caiff y cleifion a'r staff eu diogelu. Yn dilyn hynny, cafwyd ymateb prydlon gan y practis, a roddodd sicrwydd ac a nododd y camau a fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion y tynnwyd sylw atynt.

## **Llywodraethu / Staffio**

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Copi o'r adroddiad blynyddol diweddaraf a baratowyd o dan Reoliad 16(3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017
- Polisiâu / gweithdrefnau cydsyniad ar sail gwybodaeth
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i bob aelod o'r staff

---

<sup>9</sup> Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cyfeirio at y canllawiau ynghylch gweithdrefnau atal a rheoli heintiau mewn practisau deintyddol

- 
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
  - Aseidiadau risg a wnaed mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch y staff
  - Datganiad o ddiben<sup>10</sup>
  - Taflen wybodaeth i gleifion<sup>11</sup>

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig wybod i ni fod y practis wedi aros ar agor drwy gydol pandemig COVID-19, gan gynnig cyngor a thriniaeth frys yn unol â chanllawiau COVID-19. Dywedwyd wrthym fod y practis hefyd yn rhoi cymorth i bractisau lleol yn ôl yr angen ac wedi gweithio'n galed i ddarparu gofal deintyddol er gwaethaf yr heriau a wynebwyd oherwydd y pandemig.

Gwnaeth y rheolwr cofrestredig ganmol y staff yn fawr, a dywedodd wrthym eu bod wedi addasu'n dda i'r canllawiau COVID-19 newydd a chydweithio fel tîm. I roi cymorth, roedd y practis yn defnyddio rhaglen negeseuon grŵp fel y gallai'r staff gadw mewn cysylltiad. Rhoddodd y rheolwr cofrestredig wybod i ni ei fod bob amser ar gael i'r staff fynd ato os oeddent yn teimlo bod angen help neu gyngor arnynt. Roedd hyfforddiant a chyfarfodydd y practis ar ddechrau'r pandemig wedi cael eu cynnal drwy alwad fideo grŵp.

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig ddisgrifio'r prosesau a'r gweithdrefnau a oedd yn sicrhau bod cyffuriau a chyfarpar brys ar gael ac yn gyfredol. Dywedwyd wrthym fod y cyffuriau brys yn cael eu gwirio yn wythnosol a bod yr holl nyrsys deintyddol cymwys wedi cael eu hyfforddi i wneud hyn. Roedd cyffuriau brys yn cael eu cadw mewn cwpwrdd lle roedd yn hawdd cael gafael arnynt ar lawr gwaelod y ddeintyddfa ochr yn ochr â chyfarpar brys arall megis y diffibriliwr, hylif golchi llygad a'r pecyn cymorth cyntaf. Roedd silindr ocsigen sbâr yn cael ei gadw ar lawr cyntaf y practis rhag ofn y byddai ei angen. Roedd pecynnau chwistrellu glwcagon<sup>12</sup> brys yn cael eu cadw yn yr oergell a'u newid bob chwe mis am nad oedd gwiriadau tymheredd yn cael eu cynnal ar hyn o bryd i sicrhau bod yr oergell yn aros o fewn yr ystod tymheredd sy'n ofynnol ar gyfer y cyffur hwn.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn annog y cleifion i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a bod nifer o aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg gan gynnwys deintydd, hylenydd deintyddol a nyrs ddeintyddol. Roedd gwybodaeth ar gael yn hawdd yn Gymraeg ac yn Saesneg a chawsom wybod bod arwyddion ym mhob rhan o'r practis yn ddwyieithog.

---

<sup>10</sup> Y datganiad o ddiben yw'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 1 i Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys nodau ac amcanion y practis ac enwau a chymwysterau'r deintyddion a'r staff deintyddol. Dylai hefyd restru'r mathau o driniaeth, cyfleusterau a phob gwasanaeth arall a ddarperir yn y practis deintyddol preifat neu at ei ddibenion, gan gynnwys manylion yr ystod o anghenion y bwriedir i'r gwasanaethau hynny eu diwallu.

<sup>11</sup> Mae'r daflen wybodaeth hon, a ddarperir i'r cleifion, yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 i'r rheoliadau uchod. Roedd y wybodaeth yn cynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben, trefniadau ar gyfer ceisio barn y cleifion, mynediad i'r eiddo a chadw apwyntiadau

<sup>12</sup> Mae "Glwcagon" yn gyffur brys a roddir drwy bigiad mewngyhyrol mewn achos o hypoglycaemia diabetig.



---

Gwelsom dystiolaeth o ddatganiad o ddiben cyfredol a thaflen gwybodaeth ddwyieithog i gleifion a oedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau sy'n llywodraethu deintyddiaeth breifat yng Nghymru. Hefyd, cawsom adroddiad blynyddol gonest a chyfredol wedi'i gwblhau gan y rheolwr cofrestredig a oedd yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella ymhellach a chynllun parhad busnes cynhwysfawr a oedd yn gyfredol ac yn fersiwn wedi'i rheoli.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Fel rhan o'r broses gwirio ansawdd, gwnaethom ofyn am dystiolaeth o hyfforddiant gorfodol y staff, gan gynnwys Cynnal Bywyd Sylfaenol (BLS). Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos nad oedd aelod o'r staff sy'n rhoi gofal uniongyrchol i'r cleifion wedi cwblhau hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol na Dadebru Cardio-anadlol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn ystod y gwiriad ansawdd o bell, gofynnodd yr arolygydd am dystiolaeth bellach ynghyd ag esboniad a sicrwydd bod yr aelod o staff hwn wedi trefnu lle ar gwrs achrededig (naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb) i gwblhau'r hyfforddiant hwn. Ni chafodd ei ddarparu. Mae hwn yn fater difrifol iawn ac mae'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch y cleifion pe bai argyfwng meddygol yn codi yn y practis gan gynnwys claf yn llewygu, neu ataliad anadlol neu ataliad ar y galon.

Rhaid gwneud trefniadau i sicrhau bod gan yr holl staff hyfforddiant, sgiliau a gwybodaeth gyfredol am Gynnal Bywyd Sylfaenol cyn gynted â phosibl.

Yn ystod y gwiriad ansawdd, nodwyd bod un aelod o'r staff wedi cael ei gyflogi, ac yn gweithio yn y practis, heb gael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn gyntaf. Mae'n ofyniad yn y rheoliadau sy'n llywodraethu deintyddiaeth breifat y dylid cael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer gweithlu oedolion a phlant cyn dechrau cyflogaeth. Mae methu â chael a chwblhau gwiriadau cyn cyflogi digonol yn fater difrifol iawn a allai arwain at berson â chymeriad anaddas yn cael cysylltiad uniongyrchol â chleifion, tra ei fod mewn swydd o ymddiriedaeth.

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff wedi cael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer gweithlu oedolion a phlant cyn cyflogi.

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig wybod i ni nad oedd cofnodion cleifion cyfredol yn cael eu cwblhau wrth i'r cleifion gael eu trin. Byddai cofnodion gofal deintyddol y cleifion i gyd yn cael eu gadael tan yn hwyrach y diwrnod hwnnw pan fyddent yn cael eu hysgrifennu fel grŵp. Gallai methu ag ysgrifennu cofnod gofal deintyddol y cleifion ar adeg y driniaeth achosi canlyniadau difrifol i ddiogelwch y cleifion. Mae'n bosibl na fyddai'r drafodaeth â'r claf yn cael ei chofnodi'n gywir a gellid cofnodi triniaeth anghywir.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl glinigwyr yn cwblhau holl gofnodion gofal deintyddol y cleifion yn llawn, yn gywir ac yn gyfredol ar adeg y driniaeth.

Fel rhan o'r broses gwirio ansawdd, gofynnodd AGIC i weld dystiolaeth o archwilio rheolaidd

---

---

a'r trefniadau llywodraethu clinigol parhaus ar gyfer y practis deintyddol. Yn ystod yr alwad gwirio ansawdd, ac ar y cyd â'r dystiolaeth a ddarparwyd, nododd AGIC nad oedd y gwaith llywodraethu ac archwilio clinigol angenrheidiol i sicrhau gwasanaeth diogel ac effeithiol yn cael ei wneud.

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig wybod i AGIC ei fod wedi cwblhau archwiliad o gardiau cofnodion ddiwethaf ym mis Ionawr 2021. Archwiliad ôl-weithredol oedd hwn o gofnodion deintyddol ar gyfer mis Ionawr - Rhagfyr 2020 a oedd wedi tynnu sylw at faterion sylweddol o ran safon cadw cofnodion yn ystod y cyfnod hwnnw. Hefyd, nododd y rheolwr cofrestredig ei fod yn teimlo bod y safon cadw cofnodion wedi gostwng ers mis Ionawr 2021. Mae safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y tîm deintyddol yn nodi bod rhaid cymryd camau prydlon os bydd unigolyn cofrestredig yn teimlo y gall perfformiad proffesiynol roi'r cleifion mewn perygl. Fel y cyfryw, dylai ailarchwiliad o gofnodion gofâl deintyddol fod wedi cael ei gynnal yn fwy prydlon oherwydd canfyddiadau'r archwiliad blaenorol a datgeliad y rheolwr cofrestredig bod perfformiad yn wael yn y maes hwn. Am nad oedd hyn wedi cael ei wneud, mae hyn yn golygu na fyddai trefniadau cadw cofnodion gwael yn cael eu canfod am beth amser. Yn ei dro, gallai hyn olygu bod y cleifion yn cael eu rhoi mewn perygl.

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig wybod i AGIC nad oedd wedi ymgymryd â gweithgarwch cydymffurfio ers dechrau mis Chwefror 2021 am fod y rheolwr cydymffurfio ar gyfnod mamolaeth. Roedd dystiolaeth ysgrifenedig a gyflenwyd fel rhan o'r broses gwirio ansawdd yn nodi na fyddai'r tasgau hyn yn cael eu cwblhau am beth amser nes i'r rheolwr cydymffurfio ddychwelyd yn hwyrach yn y flwyddyn.

Hefyd, pan ofynnwyd am y trefniadau ar gyfer ceisio barn y cleifion, rhoddodd y rheolwr cofrestredig wybod i AGIC nad oedd wedi gwneud hynny ers dechrau pandemig COVID-19 ym mis Mawrth 2020. Cawsom wybod nad oedd y practis yn defnyddio dulliau electronig i gasglu barn y cleifion ac roedd holiaduron papur a ffurflenni sylwadau wedi cael eu tynnu fel mesur atal a rheoli heintiau oherwydd y pandemig.

Mae methu cwblhau gweithgareddau archwilio a llywodraethu clinigol rheolaidd a pharhaus yn golygu nad yw AGIC yn sicr mwyach fod trefniadau ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Yn y pen draw, mae absenoldeb gweithgareddau o'r fath yn golygu ei bod yn bosibl na fydd pryderon sy'n peri risg i ddiogelwch y cleifion yn cael eu nodi ac y byddant yn parhau am gyfnod amhenodol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:

- Cwblhau archwiliadau clinigol yn rheolaidd a gweithredu ar y canfyddiadau mewn modd amserol fel rhan o raglen barhaus o lywodraethu clinigol
- Casglu barn y cleifion am y practis a sicrhau bod proses effeithiol ar waith er mwyn cael yr adborth hwn.

O ganlyniad i'r pryderon a'r risgiau cysylltiedig i'r cleifion a'r staff a nodwyd yn ystod y gwiriad

---

---

ansawdd, anfonwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio at y darparwr cofrestredig i ofyn am sicrwydd mewn perthynas â'r camau sydd wedi, neu a fydd, yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd ac i sicrhau y caiff y cleifion a'r staff eu diogelu. Yn dilyn hynny, cafwyd ymateb prydlon gan y practis, a roddodd sicrwydd ac a nododd y camau a fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion y tynnwyd sylw atynt.

Dywedwyd wrth AGIC fod meysydd allweddol archwilio a llywodraethu clinigol<sup>13</sup>, gan gynnwys cyfarfodydd y practis â'r bwriad i drafod canfyddiadau allweddol archwiliadau clinigol, wedi cael eu hesgeuluso a'u hoedi yn fwriadol am gyfnod o 10 mis. Roedd hyn yn golygu na fyddai neb yn sylwi ar feysydd y gallai fod angen eu gwella am gryn amser, gan effeithio ar ansawdd, diogelwch a'r gofal y mae'r cleifion yn ei gael o bosibl.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y cynhelir cyfarfodydd practis rheolaidd.

Yn ogystal, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod arfarniadau'r staff hefyd yn hwyr o gyfnod o tua phedwar mis. Mae arfarniadau staff yn adnodd pwysig a ddefnyddir i sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi i weithio hyd eithaf eu gallu ac yr eir i'r afael ag unrhyw feysydd ar gyfer gwella. Dylid cynnal y rhain yn flynyddol. Gall methu â gwneud hyn gael effaith uniongyrchol ar ofal y cleifion ac iechyd a llesiant y staff.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn cael arfarniadau yn flynyddol.

---

---

<sup>13</sup> Gellir diffinio llywodraethu clinigol fel y fframwaith a ddefnyddir er mwyn i sefydliadau gofal iechyd fod yn atebol am wella ansawdd eu gwasanaethau a diogelu ansawdd uchel o ofal yn barhaus.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Practis Deintyddol Heol Dŵr

Dyddiad y gweithgarwch: 5 Hydref 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn cael eu harfarnu'n flynyddol	Rheoliad 17 (4)(a)(b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Wedi'i oedi - Arfarniad Staff 2021 - Holiaduron Staff wedi'u Dosbarthu Cyfweiliadau Arfarnu'r Staff yn dechrau'r wythnos sy'n dechrau 25 Hydref 2021	A J Bhattacherjee	15 Tachwedd 2021  Adroddiadau i'w cwblhau ar ôl cyfweiliadau
2	Rhaid i'r darparwr cofrestredig gynnal cyfarfodydd staff y practis yn rheolaidd	Rheoliad 15(3)(a)(b)(c) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Wedi'i atal - meddalwedd iComply - Cyfarfodydd staff i ailddechrau	A J Bhattacherjee	17 Tachwedd 2021  Trefnwyd Cyfarfod iComply

			<p>Bydd cyfarfodydd gweinyddol cyffredinol a gynhaliwyd ar sail ad hoc o fis Chwefror 2021 yn parhau amser cinio ar ddydd Mercher a byddant yn ffurfiol gyda chofnodion presenoldeb a'r pynciau a drafodir yn cael eu cofnodi.</p>	A J Bhattacherjee / Rebecca Dufty	<p>Dechreuwyd cofnodi'r Cyfarfod Gweinyddol Cyffredinol ar unwaith</p> <p>26/10/21</p>
			<p>Caiff Sgrymiau Staff Cyn Gwaith Boreol a gynhaliwyd yn rheolaidd ond yn ad hoc eu ffurfioli wrth nodi materion sy'n codi a chadw cofnodion.</p>	A J Bhattacherjee/ Rebecca Dufty	<p>Dechreuwyd cadw cofnodion ar unwaith</p> <p>26/10/21</p>
3	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod hyfforddiant gorfodol yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd ar gyfer yr holl staff	Rheoliad 17(3)(a)(b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	<p>Fel y cynghorwyd, bydd rhestr dabledig o ofynion hyfforddiant gorfodol y staff yn cael ei chadw er mwyn ei gwneud yn haws gwirio.</p> <p>Caiff gwiriadau blynyddol o ffeiliau'r staff (a gynhaliwyd ddiwethaf ar 20 Hydref 2020), gyda gwiriadau CPR a hyfforddiant gorfodol yn cael eu hymestyn i staff newydd</p>	A J Bhattacherjee	<p>Eisoes ar waith</p> <p>Ar unwaith 26/10/21</p>

			a'u hadolygu'n fisol ynghyd â'u rhestr wirio sefydlu nes eu bod yn cyd-fynd â'r gwiriad blynyddol o ffeiliau'r staff.		
4	Rhaid gwneud trefniadau i sicrhau bod gan yr holl staff hyfforddiant, sgiliau a gwybodaeth gyfredol am Gynnal Bywyd Sylfaenol cyn gynted â phosibl	Rheoliad 31(3)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	<p>Mae gan yr un aelod newydd o'r staff dystysgrif Cynnal Bywyd Sylfaenol bellach.</p> <p>Bydd yn ofynnol bellach i staff newydd gwblhau'r hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol ar-lein nes eu bod yn cyd-fynd â rota hyfforddiant CPR blynyddol y practis.</p> <p>Trefnwyd yr hyfforddiant argyfwng meddygol a Chynnal Bywyd Sylfaenol blynyddol nesaf ar gyfer yr holl staff ym mis Rhagfyr 2021</p>		<p>10 Hydref 2021</p> <p>Cafodd hyn ei roi ar waith ar unwaith ar gyfer staff newydd yn y dyfodol.</p>
5	Sicrhau bod yr holl staff wedi cael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer gweithlu oedolion a phlant cyn cael eu cyflogi.	Rheoliad 18(e) ac Atodlen 3 Rhan 1 (2)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae'r aelod newydd o staff wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bellach.	A J Bhattacherjee	20 Hydref 2021
6	Rhaid atgyweirio neu newid y lloriau yn y practis er mwyn sicrhau y gellir eu glanhau mewn modd addas.	Rheoliad 22(a)(b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Atgyweirio'r llawr - Caiff ardaloedd â diffygion bach ar y llawr a nodir yn ystod gwyliadwriaeth barhaus eu	A J Bhattacherjee	Ar unwaith

			<p>hatgyweirio'n fewnol a'u selio os oes angen ond ni chânt eu cofnodi ar hyn o bryd - byddant bellach yn cael eu cofnodi yn y cyfarfodydd staff misol.</p> <p>Os bydd angen atgyweiriadau mwy caiff arbenigwyr lloriau eu galw ac mae'r dyddiadau atgyweirio yn cyfateb i'r dyddiadau anfoneb gyferbyn.</p>	A J Bhattacherjee	<p>Cwblhawyd Dyddiadau'r atgyweirio a anfonebwyd yn ddiweddar gan arbenigwyr lloriau:</p> <p>1 Rhagfyr 2019</p> <p>5 Mai 2020</p> <p>13 Hydref 2021</p>
7	Cwblhau holl gofnodion gofal deintyddol y cleifion yn llawn, yn gywir ac yn gyfredol ar adeg y driniaeth.	Rheoliad 20(1)(a)(i)(ii) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	<p>a. Ysgrifennu cofnodion a gaiff eu cwblhau ar adeg y driniaeth/ymgyngoriad, yn gyfredol, yn llawn ac yn gywir. Naill ai nodiadau ar gyfrifiadur neu ar bapur.</p> <p>b. Cwblhau cwrs cadw cofnodion Isopharm.</p>	A J Bhattacherjee	<p>a. Ar waith ar unwaith <b>7/10/2021</b></p> <p>b. <b>10/10/2021</b> <b>13/10/2021</b> Cwblhawyd cwrs cadw cofnodion</p>



			<p><b>c.</b> Cwblhau cwrs cadw cofnodion Addysg a Gwella Iechyd Cymru</p> <p><b>d.</b> Mynd yn ôl i weithio gyda nyrs brofiadol sy'n fedrus yn nodi arddweud ar lafar.</p> <p><b>e.</b> Cwblhau cwrs teipio cyffwrdd</p>	<p>Isopham Gweler y dystysgrif atodedig</p> <p><b>c.</b> Trefnwyd cwrs cadw cofnodion ym mis Rhagfyr 2021 - trefnwyd cyn yr Arolygiad</p> <p><b>d.</b> Ar waith ar unwaith 7/10/2021</p> <p><b>e.</b> 12/10/2021 Trefnwyd cwrs teipio cyffwrdd i ddechrau yr wythnos sy'n dechrau 25 Hydref 2021</p>
--	--	--	--	--

			g. System adnabod llais gydag iphone yn cael ei threialu / Dictaffon yn cael ei dreialu		g. Parhaus ac i'w ffurfioli neu ei wrthod erbyn 31 Rhagfyr 2021
9	<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cwblhau archwiliadau clinigol yn rheolaidd a gweithredu ar y canfyddiadau mewn modd amserol fel rhan o raglen barhaus o lywodraethu clinigol</li> <li>Casglu barn y cleifion am y practis a sicrhau bod proses effeithiol ar waith er mwyn cael yr adborth hwn.</li> </ul>	Rheoliad 16(1)(a)(b) a 16(2)(a)(b)(i)(ii)(d)(i)(ii) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	<p>Archwiliad Cerdyn Cofnod Blynyddol i gael ei newid i Archwiliad 6 mis.</p> <p>Archwiliad Ionawr - Gorffennaf 2021 yn mynd rhagddo.</p> <p>Archwiliad cerdyn cofnodion sampl llai dros dro i gael ei gynnal: Hydref 2021 Tachwedd 2021 Rhagfyr 2021</p> <p>Archwiliad pelydr-x Irmer Ionawr - Mehefin 2021</p>	<p>A J Bhattacharjee</p> <p>A J Bhattacharjee</p>	<p>Ar waith ar unwaith</p> <p>15 Tachwedd 2021</p> <p>Sylwadau ar yr archwiliad o gardiau cofnodion sampl llai dros dro o fewn 2 wythnos i ddiwedd y mis.</p> <p>Archwiliad pelydr-x Irmer</p>

			<p>Casglwyd data 15 Hydref Sylwadau a thrafod â'r staff perthnasol ddydd Mercher 10 Tachwedd</p> <p>Mae'r arolwg cleifion blynyddol wedi'i atal wedi cael ei newid i fersiwn ar-lein o'r un ffurflen y gellir cael gafael arni drwy ddolen a gaiff ei hanfon drwy e-bost neu god QR a ddarperir yn y dderbynfa.</p>		<p>- 10 Tachwedd 2021</p> <p>Dechreuwyd 11/10/21 Ymatebion i'r arolwg cleifion blynyddol i gael eu casglu erbyn diwedd mis Tachwedd 2021</p>
10	Rhaid gwirio tymheredd oergelloedd a ddefnyddir i storio meddyginiaethau yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn aros o fewn terfynau tymheredd derbyniol	Rheoliad 13(4)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	<p>Gwiriadau tymheredd yr oergelloedd i gael eu hailgyflwyno gyda synhwyrdd tymheredd bluetooth a chofnodwr data newydd.</p> <p>Bydd y protocol ar gyfer oes silff fyrrach ar gyfer storio glwcagon fel yr argymhellir gan y gweithgynhyrchwyr yn cael ei newid i oes silff lawn, ar yr amod bod yr oergell yn gweithredu o fewn cyfyngiadau</p>		28 Hydref 2021

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: A J  
Bhattacharjee

Dyddiad: 26  
Hydref 2021